

## Y FFORWM 50+ – CANLYNIADAU AROLWG 2

### Cymorth ynghylch Effeithlonrwydd Ynni

Roeddem wedi gofyn ichi a oeddech yn ymwybodol, cyn ichi gael yr arolwg hwn, y gallech arbed rhwng £210 a £310 ar eich biliau tanwydd drwy inswleiddio eich waliau a'ch atig. Yn galonogol, roedd 90% ohonoch wedi dweud eich bod yn gwybod, a dim ond 10% ohonoch oedd wedi ateb nad oeddech yn gwybod.

Yna roeddem wedi gofyn a oeddech yn gwybod bod y Cyngor yn gallu trefnu bod waliau ceudod a'r atig yn cael eu hinswleiddio yn rhad ac am ddim ar gyfer pobl dros 70 oed, neu bobl sy'n derbyn rhai o fudd-daliadau'r wladwriaeth. Unwaith eto roedd y canlyniadau'n galonogol, gan fod 83% ohonoch wedi dweud eich bod yn gwybod, gydag 16% heb fod yn gwybod ac 1% ddim yn siŵr.

Pan ofynnwyd i ble y byddech yn mynd i gael cyngor i sicrhau bod eich cartref yn defnyddio ynni'n fwy effeithiol er mwyn arbed arian ar eich biliau, roedd y canlyniadau fel a ganlyn...

Y Cyngor dros y ffôn	19%
Y rhyngrwyd	11%
Corff cyngori	7%
Gofyn i ffrindiau neu deulu	15%
Taflen a gawsoch drwy'r twll llythyrau	5%
Y Cyngor wyneb yn wyneb	4%
Y Cyngor drwy'r rhyngrwyd neu'r e-bost	11%
Y Llyfrgell	12%
Y llyfr ffôn	13%
Arall	3%

Er gwybodaeth, mae Cymorth ynghylch Effeithlonrwydd Ynni ar gael drwy Dîm Gwella Cartrefi Cyngor Sir Caerfyrddin, ac i gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais am gymorth, cysylltwch â Galw Sir Gâr drwy ffonio 01267 234567.

### Eich Iechyd

Yn gyntaf oll roeddem wedi gofyn ichi roi eich barn am gyflwr eich iechyd, ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn...

Yn ardderchog	10%
Yn dda iawn	26%
Yn dda	33%
Yn weddol	24%
Yn wael	7%

Yn sgil hynny, roeddem wedi gofyn a oeddech wedi cael brechiad rhag y fflw y llynedd. Dywedodd 49% ohonoch eich bod wedi cael, a dywedodd 51% ohonoch nad oeddech wedi cael. Yna gofynnwyd i'r rhai **nad** oeddynt **wedi** cael brechiad rhag y fflw y llynedd, beth oedd eu prif resymau dros beidio â chael brechiad. Y rheswm a

grybwyllwyd amlaf (gan 25%) oedd *'Rwy'n iach felly does dim angen brechiad fflw blynyddol arnaf'*. Mae'r rhestr lawn isod...

Dim digon o wybodaeth ar gael am fanteision cael brechiad fflw bob blwyddyn	8%
Ddim yn gwybod bod clinigau sy'n rhoi brechiad fflw ar gael yn lleol	9%
Nid wyf yn credu ei fod yn gweithio	6%
Rwy'n credu bod brechiad fflw yn gallu'ch gwneud chi'n sâl	11%
Rwy'n pryderu am y sgil effeithiau	16%
Rwy'n iach felly does dim angen brechiad fflw blynyddol arnaf	25%
Nid wyf yn credu ei fod yn angenrheidiol	11%

Roedd mwy na hanner (55% ohonoch) wedi dweud eich bod yn bwriadu cael brechiad rhag y fflw eleni, ac roedd 45% ohonoch wedi penderfynu peidio â'i gael.

### **Ymgynghori**

Pan ofynnwyd *'Petaem ni'n trefnu cyfarfod Fforwm 50+ gan gynnwys grwpiau trafod bach gydag aelodau'r fforwm, Cynghorwyr Sir, siaradwr gwadd a swyddogion allweddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn bresennol, a fydddech yn debygol o ddod?'*, roedd y rhan fwyaf ohonoch (76%) wedi ymateb mewn modd cadarnhaol. Pan ofynnwyd ichi pryd y byddai'n fwyaf cyfleus ichi ddod, roedd y canlyniadau fel a ganlyn.....

Yn ystod y dydd ar ddiwrnod o'r wythnos	48%
Gyda'r hwyr ar ddiwrnod o'r wythnos	29%
Yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn	16%
Gyda'r hwyr ar ddydd Sadwrn	6%
Arall	1%

### **Tai**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried adeiladu llefydd byw yn arbennig ar gyfer anghenion pobl hŷn, a hynny mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol. Gall hyn gynnwys:

- Byngalos 2 ystafell wely, mewn grwpiau bach, ymhob cwr o'r Sir
- Cynlluniau gofal hyblyg, ar ffurf fflatiau hunangynhwysol 1 a 2 ystafell wely, ynghyd â gofal a chymorth yn unol ag anghenion yr unigolyn, a fyddai'n amrywio o gynnig dim cymorth i gynnig llawer o gymorth. Fel rheol byddai'r rhain yn cynnwys 40 - 60 o fflatiau ar yr un safle.
- Pentrefi gofal, gydag amrywiaeth o wahanol fathau o gartrefi ar gyfer pobl hŷn ar yr un safle, gan gynnwys byngalos a fflatiau, yn ogystal â chartref nyrsio. Gallai'r rhain fod â 60 - 150 o gartrefi ar yr un safle.

Roeddem am gael eich sylwadau chi ar y cynlluniau posib hyn, yn gyffredinol ar draws y sir a hefyd mewn perthynas â chi neu eich teulu.

Roeddem wedi gofyn pa un o'r dewisiadau hyn, yn eich tyb chi, y dylai Cyngor Sir Caerfyrddin fod yn ei adeiladu ar gyfer pobl hŷn ledled y sir. Y dewis mwyaf poblogaidd (93%) oedd byngalos 2 ystafell wely, yna cynlluniau gofal hyblyg (92%) a phentrefi gofal (75%). Yr oedd yr awgrymiadau ar gyfer dewisiadau eraill yn cynnwys darparu gofal yn y cartref er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Yna roeddem wedi gofyn ichi feddwl yn benodol amdanoch chi'ch hunan a'ch teulu – pa un o'r dewisiadau y byddech **chi'n** ei ystyried. Unwaith eto y dewis mwyaf poblogaidd oedd byngalo 2 ystafell wely, gan fod 91% ohonoch wedi ymateb yn gadarnhaol i hynny. Y dewisiadau nesaf o ran poblogrwydd oedd cynlluniau gofal hyblyg (77%) a phentrefi gofal (63%).

Estynnwyd gwahoddiad ichi awgrymu unrhyw ddewisiadau eraill, ac er eich bod wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i gael cynlluniau gofal hyblyg yn y sir, roedd llawer ohonoch wedi dweud bod y cynlluniau tai lloches sydd ar waith ledled y sir yn gweithio'n dda eisoes, ac yn ôl pob golwg mae llawer ohonoch yn hoffi'r syniad o gael grwpiau o fflatiau hunangynhwysol ynghyd â gerddi a llecynnau cyffredin i'r preswylwyr. Thema gyffredin arall drwy'r holl ymatebion oedd y dylai unrhyw ddatblygiadau newydd gynnwys siopau neu fod yn agos, o leiaf, i siopau lleol.

### **Y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal adolygiad o'i Wasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth er mwyn clustnodi'r dewisiadau o ran y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor am wario'r arian sydd ar gael ar gyfer y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth yn y modd mwyaf effeithiol posibl er mwyn diwallu anghenion pobl Sir Gaerfyrddin. Bydd canlyniadau arolwg y Fforwm 50+, ynghyd ag ymgynghoriadau eraill, yn ein helpu i benderfynu ar ddyfodol Gwasanaethau Llyfrgell a Threftadaeth Sir Gaerfyrddin.

Pan ofynnwyd '*Pa mor aml rydych chi'n mynd i lyfrgell yn Sir Gaerfyrddin?*' yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'byth' (32%). Mae rhestr lawn o'r ymatebion isod.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r sawl oedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd. Mae'r rhesymau dros ymweld â llyfrgell wedi eu rhestru isod:

Benthyca llyfrau oedolion	34%
Cael gwybodaeth	21%
Defnyddio'r casgliadau hanes lleol	8%
Defnyddio llun-gopiwr	7%
Defnyddio cyfrifiaduron	7%
Benthyca DVDs	5%
Eistedd a darllen papurau newydd	5%
Mynd i ddigwyddiad	4%

Defnyddio'r llyfrgell fel man astudio	2%
Mynd i gyfarfod	2%
Benthyca llyfrau plant	1%

Roedd 87% ohonoch yn barnu ei bod yn weddol rwydd neu'n rhwydd iawn ichi ddod o hyd i'r llyfr/gwybodaeth roeddech yn chwilio amdani/amdano. Roedd 6% yn barnu ei bod yn weddol anodd neu'n anodd iawn, ac roedd 7% yn barnu nad oedd hi'n rhwydd nac yn anodd.

Pan ofynnwyd pa mor fodlon oeddech ar y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin, roedd 37% ohonoch yn fodlon iawn, 48% yn weddol fodlon, 10% heb fod yn fodlon nac yn anfodlon, a 4% yn eithaf anfodlon.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r bobl hynny nad oeddynt yn defnyddio'r llyfrgelloedd. Y prif reswm dros beidio â defnyddio llyfrgelloedd oedd 'Rwyf yn prynu fy holl lyfrau' (34%). Pan ofynnwyd beth fyddai'n achosi ichi ddechrau defnyddio'r gwasanaethau llyfrgelloedd yn amlach, roedd y canlyniadau fel a ganlyn....

Oriau agor hirach	14%
Cael llyfrgell yn agos i'm cartref	12%
Cyfnod benthyca hirach	11%
Gwell mynediad / cysylltiadau trafndiaeth	10%
Dewis ehangach o gyfeirlyfrau	9%
Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd ar gael	9%
Dewis ehangach o lyfrau ffeithiol	8%
Dewis ehangach o lyfrau ffuglen	7%
Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau / arddangosfeydd	7%
Benthyca gêmiau i'w chwarae ar gyfrifiadur	2%
Rhagor o lefydd eistedd neu ddarllen	2%
Rhagor o gyfrifiaduron	1%

Roeddech wedi rhoi gwybod inni y byddech am i Lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin gynnig gwasanaethau eraill, sef lluniaeth, darlithiau sy'n cael eu hysbysebu'n helaeth, a grwpiau trafod. Pan ofynnwyd am syniadau eraill ynghylch gwella gwasanaethau'r llyfrgelloedd, roeddech wedi rhoi gwybod inni y gellid gwella lleoliad rhai o'r arwyddion yn y llyfrgelloedd ac y gellid helaethu rhai casgliadau megis straeon ditectif a ffuglen yn gyffredinol. Roedd rhai ohonoch wedi dweud y dylai'r llyfrgell deithiol ymweld ag ardaloedd yn amlach.

Pan ofynnwyd '*A ydych chi erioed wedi ymweld ag un o amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin?*', cawsom wybod bod 63% ohonoch wedi gwneud a 37% heb wneud.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r bobl oedd wedi ymweld ag un o amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin. Yr amgueddfa fwyaf poblogaidd oedd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili – roedd 34% o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi ymweld ag amgueddfa yn Sir Gaerfyrddin wedi ymweld ag Amgueddfa'r Sir. Amgueddfa Parc Howard oedd yn

ail ar y rhestr (19%), ac yna'r Amgueddfa Cyflymder, Pentywyn (17%). Y rheswm mwyaf poblogaidd o ddigon dros ymweld ag amgueddfa oedd 'hamddena'.

Yn gyffredinol, roeddech wedi dweud eich bod yn fodlon ar y gwasanaeth amgueddfeydd oedd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Gaerfyrddin.

Bodlon iawn	31%
Gweddol fodlon	45%
Y naill na'r llall	20%
Gweddol anfodlon	4%

Pan ofynnwyd am awgrymiadau ynghylch y gwasanaethau ychwanegol yr hoffech weld Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin yn eu darparu, roedd llawer o bobl wedi dweud yr hoffent weld rhagor o arddangosfeydd am fywyd a diwylliant lleol, ac am ecoleg a materion amgylcheddol lleol. Dywedodd rhai yr hoffent weld rhagor o arddangosfeydd ar-lein a chael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Y 3 phrif reswm a roddodd y bobl a oedd heb ymweld ag amgueddfa oedd:

1.	Wn i ddim ble mae'r amgueddfeydd	25%
2.	Wn i ddim beth sydd ar gael	24%
3.	Problemau mynediad / trafrnidiaeth	17%

Pan ofynnwyd i'r bobl a oedd heb ymweld ag amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin, 'Beth fyddai'n achosi ichi ddechrau defnyddio'r gwasanaeth Amgueddfeydd yn amlach? Y 3 phrif awgrym a roddwyd oedd .....

1.	Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth	27%
2.	Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau / arddangosfeydd	26%
3.	Cael amgueddfa yn agos i'm cartref	13%

Pan ofynnwyd ichi a oeddech chi erioed wedi ymweld â'r Gwasanaeth Archifau, roedd y rhan fwyaf ohonoch (80%) wedi ateb yn negyddol. Y rheswm mwyaf poblogaidd dros ymweld â'r Gwasanaeth Archifau oedd ymchwilio i hanes teulu (46%).

Roedd yn galonogol bod 99% o'r bobl a oedd wedi ymweld â'r Gwasanaeth Archifau wedi dweud y byddent yn ymweld â'r gwasanaeth drachefn a bod 82% wedi dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth oedd gan y Gwasanaeth Archifau (42% yn fodlon iawn a 40% yn weddol fodlon).

Y 3 phrif reswm a roddodd y bobl a oedd heb ymweld â'r Gwasanaeth Archifau oedd:

1.	Wn i ddim ble mae'r archifau / sut mae dod o hyd i'r archifau	34%
2.	Wn i ddim beth sydd ar gael	31%

3.	Heb fod yn berthnasol imi	12%
----	---------------------------	-----

Pan ofynnwyd i'r bobl a oedd heb ymweld â'r Gwasanaeth Archifau 'Beth fyddai'n achosi ichi ddechrau defnyddio'r Gwasanaeth Archifau'n amlach?', y prif awgrymiadau oedd:

Gwell cyhoedduswydd am yr hyn sydd yn yr archifau	62%
Cael gwasanaeth archifau yn agosach i'm cartref	16%